

19/05/2020

## #2 Diweddariad Addysg Rhanbarthol

### Paratodau ar gyfer ail agor Ysgolion

Annwyl Benaethiaid,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw yn iach ac yn saff yn ystod y cyfnod dyrys yma.

Ddydd Gwener diwethaf fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Fframwaith penderfyniadau ar gyfer y cyfnod nesaf o ofal plant ac addysg: ystyriaethau, cynllunio a heriau'. Er mwyn eich cefnogi yn eich paratodau mi fydd cynrychiolwyr o'ch awdurdod a GwE yn cyfarfod eich fforymau cynradd ac uwchradd i drafod:

- Aseiad risg drafft;
- Fframwaith o gyngor a chanllawiau a fydd yn eich cefnogi i wneud penderfyniadau pan ddaw yn gliriach pwy fydd y grwp targed dysgwyr nesaf pan fydd rhagor o ddisgyblion yn cael eu derbyn; a
- Dangosfwrdd (llun isod) a fydd yn un lle canolog i chi gyfeirio ato yn y cam nesaf hollbwysig;

## Regional Education Update #2


### Preparations for the re-opening of schools

Dear Headteachers,

We hope that you are all keeping well and safe in this very difficult period.

On Friday last week, Welsh Government published 'The Decision Framework for the next phase of childcare and education: considerations, planning and challenges'. To support you in your preparations we (Local Authority and GwE) will meet with the primary and secondary federations in each authority to discuss:

- Draft risk assessments;
- Framework of advice and guidance which will support your decision making when it is clear who the targeted learners will be when more pupils are to be admitted; and a
- Dashboard (screenshot below) that will be a one stop shop for you in this important next phase.



Oherwydd eu hamgylchiadau unigryw mi fydd Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arbennig yn cael trafodaeth unigol yn y lle cyntaf.

Er nad oes unrhyw benderfyniad o ran ail-agor wedi ei wneud rydym yn gweithredu'n ragweithiol i sicrhau bod ysgolion rhanbarthol mewn lle cadarn os daw cyhoeddiad o'r fath.

Mi fydd nifer ohonoch wedi dechrau myfyrio a chynllunio ar gyfer y camau nesaf. Edrychwn ymlaen i gynnal y trafodaethau yma gyda chi ac i dderbyn eich sylwadau ar sut y gallwn rannu syniadau a datrysiadau yn y cyfnod holl bwysig ac allweddol nesaf.

### Hanner Tymor

Er bod ysgolion ar agor wythnos nesaf er mwyn darparu gofal i blant gweithwyr allweddol, hoffwn gadarnhau yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, nad oes unrhyw ddisgwyliad ar ysgolion i gynnig arlwy dysgu o bell yn ystod hanner tymor mis Mai. Mae hwn yn wyliau statudol ar eich cyfer ac mi fydd iechyd corfforol a meddyliol staff yn elwa o gyfle cwbl haeddiannol i ymlacio.

Yn gywir

*In the first instance and due to their own unique circumstances one to one discussions will be held with PRUs and Special Schools.*

*Although no decision has been made to re-open schools we want to work proactively with you so that schools across the Region will be in a sound position when such a decision will be made.*

*Many of you will have started collecting your thoughts about the next steps. We look forward to holding these discussion with you and to receive your views and how best we can share thinking in this very important and critical phase.*

### Half Term

*We realise schools are still providing care for children of key workers next week, however, to confirm that in line with Welsh Government guidance, there is NO expectation that schools deliver learning content during the May half term break. This is a statutory school holiday and the physical and emotional well-being of staff, parents and pupils will benefit from a much needed rest.*

*Yours sincerely*

**Mr Ian Roberts, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam / Wrexham County Borough Council**  
**Mrs Claire Homard, Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council**  
**Mrs Karen Evans, Cyngor Sir Ddinbych / Denbighshire County Council**  
**Dr Lowri Brown, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy / Conwy County Borough Council**  
**Mr Gareem Jackson, Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council**  
**Mr Rhys Howard Hughes, Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council**  
**Mr Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE / GwE Managing Director**